**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

26 Mehefin 2024

Annwyl Mr Isherwood

**CYFRIFOLDEBAU'R GWASANAETH SIFIL MEWN PERTHYNAS Â CHOD Y GWEINIDOGION**

Rwyf yn ymwybodol bod y Pwyllgor yn ystyried fy ngwahodd i a'r Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg i ymddangos gerbron y Pwyllgor yn yr wythnosau nesaf ar gyfer sesiwn bellach ar Lawlyfr Cabinet y DU a thrafodaethau mynediad. Gan fod materion sy'n ymwneud â Chod y Gweinidogion yn rhan o'r materion a ystyriwyd yn y sesiwn briffio gyntaf, roeddwn i'n meddwl y gallai fod o gymorth i'r Pwyllgor pe bawn i'n ysgrifennu yn awr i nodi natur y Cod y Gweinidogion a chyfrifoldebau'r gwasanaeth sifil mewn perthynas ag ef.

Dogfen weinidogol yn hytrach na dogfen y gwasanaeth sifil yw Cod y Gweinidogion ac mae'n egwyddor sylfaenol mai'r Prif Weinidog, yn hytrach na'r gwasanaeth sifil, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros faterion mewn perthynas â'r Cod. Er bod Cod y Gweinidogion yn rhoi rhai cyfrifoldebau penodol i'r Ysgrifennydd Parhaol neu'r gwasanaeth sifil, a amlinellir isod, nid rôl yr Ysgrifennydd Parhaol na swyddogion eraill yw gorfodi'r Cod.

Y prif gyfrifoldebau penodol a roddir i'r Ysgrifennydd Parhaol neu'r gwasanaeth sifil o dan y cod yw:

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 6935
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Y gall y Gweinidogion ddisgwyl i'r gweision sifil sy'n eu cynghori fod yn ymwybodol o'r Cod hwn a gwneud pob ymdrech i dynnu sylw'r Gweinidogion at unrhyw wrthdaro posibl y maent wedi'i nodi.

- Gall y Prif Weinidog ofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol ystyried cwyn o dan y Cod.
- Mae'r Cod yn darparu y dylai'r Ysgrifennydd Parhaol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weinidog, ymchwilio i bryderon a godir gan staff am ymddygiad y Gweinidogion.
- Yn yr un modd, gall y Gweinidogion ddisgwyl i'r gweision sifil sy'n gweithio gyda hwy eu trin gyda'r parch a'r cwrteisi sy'n ddyladwy i'w swydd a cheisio darparu gwasanaeth proffesiynol bob amser.
- Wrth gael eu penodi i bob swydd newydd, mae'n ofynnol i'r Gweinidogion o dan y Cod roi rhestr lawn i'r Ysgrifennydd Parhaol yn ysgrifenedig o'r holl fuddiannau a allai arwain at wrthdaro, a hysbysu'r Ysgrifennydd Parhaol am unrhyw newidiadau dilynol. Mae gan yr Ysgrifennydd Parhaol ddyletswydd i ysgrifennu at y Gweinidogion yn flynyddol yn gofyn iddynt wirio bod eu cofnod o fuddiannau yn gyfredol. Cyhoeddir datganiad sy'n ymwneud â buddiannau perthnasol y Gweinidogion yn flynyddol.
- Mae'n ofynnol i gyn-weinidogion sy'n dymuno cyhoeddi eu cofiannau gyflwyno'r llawysgrifau i'r Ysgrifennydd Parhaol mewn da bryd a sicrhau bod eu llawysgrifau'n cydymffurfio â'r egwyddorion a nodir o dan yr hyn a elwir yn Rheolau Radcliffe.

Gwn fod gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig yn ei sesiwn olaf ar rôl y gwasanaeth sifil pan fo cwynion neu bryderon na chydymffurfiwyd â Chod y Gweinidogion. Mae Gweinidogion yn cael eu penodi a'u diswyddo o dan Adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a dim ond cyhyd ag y byddant yn cadw hyder y Prif Weinidog y gallant aros yn eu swydd. Fel y mae'r Cod yn ei nodi, y Prif Weinidog, yn y pen draw, sy'n gyfrifol am farnu pa safonau ymddygiad a ddisgwylir gan weinidog a pha ganlyniadau fyddai'n briodol am weithredu yn groes i'r safonau hynny. Mae paragraff 1.7 o'r Cod yn glir mai mater i'r Prif Weinidog yw penderfynu sut y dylid ymchwilio i gwynion neu bryderon ac er y caiff droi at yr Ysgrifennydd Parhaol i gael cyngor, neu ofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol ymchwilio, nid oes rheidrwydd arno i wneud y naill neu'r llall.

Byddaf, wrth gwrs, yn darparu gwybodaeth bellach, yn ysgrifenedig neu'n bersonol, am y broses mewn perthynas â'r Cod os byddai hynny'n ddefnyddiol. Rwyf yn gobeithio, er hynny, y bydd y Pwyllgor yn deall na fyddwn yn teimlo y gallwn ymateb i unrhyw gwestiynau, gan gynnwys rhai ffeithiol, mewn perthynas â materion nad ydynt yn dod o fewn fy nghyfrifoldeb i fy hun na'r gwasanaeth sifil yn fwy cyffredinol, na chyflwyno sylwadau ar achosion unigol.


Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Rwyf yn gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor o ran deall rôl a rhyngweithiad y gwasanaeth sifil mewn perthynas â Chod y Gweinidogion.

Yn gywir,

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en